Dylunio Cynnyrch TGAU

Pwy fydd yn darparu'r cwrs hwn?

Ysgol Ardudwy.

Beth fyddaf yn ei ddysgu?

Bydd y cwrs hwn yn dy helpu i:

- Cyfuno sgiliau a gwybodaeth a dealltwriaeth er mwyn dylunio a gwneud cynhyrchion o safon uchel.
- Dysgu a chymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o ddefnyddiau, cydrannau, prosesau, technegau ac arfer diwydiannol.
- Gwerthuso prosesau a chynyrchion ac ystyried effeithiau ehangach dylunio a thechnoleg ar gymdeithas.

Sut y byddaf yn dysgu?

Mae'r cwrs yn gymysgedd o dasgau dosbarth ac ymarferol. Byddi'n cael cyfle i baratoi ac ymarfer dy sgiliau cyn i ti gael dy asesu fel dy fod yn gwybod ac yn deall beth sydd rhaid iti ei wneud.

Sut y byddaf yn cael fy asesu?

Bydd y cynllun asesu ar gyfer TGAU yn cynnwys;
Arholiad terfynol sydd werth 40% o gyfanswm y marciau, gwaith cwrs a chynnwys cynnyrch tri-dimensiwn a phortffolio sydd werth 60% o gyfanswm y marciau.

Beth fydd yn digwydd ar ôl y cwrs yma?

Ar ôl Blwyddyn 11 gelli ddilyn:

- Cwrs Lefel A Dylunio Cynnyrch ac yna y posibilrwydd o fynychu prifysgol.
- Diploma Cenedlaethol mewn Celf a Dylunio lefel 3.
- Diploma Cenedlaethol Edexcel mewn Peirianneg Fecanyddol lefel 3.

Syniadau am swyddi:

- Dylunydd Cynnyrch
- Pensaer
- Dylunydd Diwydiannol
- Dylunio 3-Dimensiwn
- Rheolydd Ansawdd

Am wybodaeth pellach cysylltwch â:

Miss Yvonne Roberts, Ysgol Ardudwy.

Ysgol Eifionydd Porthmadog